

Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Iau, 17 Hydref 2013**

Amser: **09:00 – 12:30**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_17_10_2013&t=175&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Nick Ramsay (Cadeirydd)
Mick Antoniw
Byron Davies
Keith Davies
Alun Ffred Jones
Eluned Parrott
Joyce Watson

Tystion:

Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Minister for Economy, Science and Transport
Tim James, Dirprwy Gyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru
Rob Hunter, Llywodraeth Cymru
Mark Langman, Network Rail
James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru

Staff y Pwyllgor:

Olga Lewis (Clerc)
Mike Lewis (Dirprwy Clerc)
Andrew Minnis (Ymchwilydd)
Ben Stokes (Ymchwilydd)

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie James AC, Rhun ap Iorwerth AC a David Rees AC. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

2 Ymchwiliad i Ddyfodol Masnachfaint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau (sesiwn dystiolaeth) (9.40–10.20)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr Network Rail.

3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014–15: Yr Economi, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth (10.30–12.30)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

2.2 Cytunodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

Economi:

– Cynigodd y Gweinidog roi diweddariad bob chwe mis ar gynnydd yn erbyn ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu, a fydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am nifer y swyddi a gaiff eu creu, eu diogelu a'u cynorthwyo gan yr adran, a gwybodaeth am nifer y swyddi mewnfuddsoddi a gyflawnir gan yr adran mewn gwirionedd (yn hytrach na ffigurau ehangach adran Masnach a Buddsoddi Llywodraeth y DU, sy'n seiliedig ar gyhoeddiadau).

– Cynigodd y Gweinidog ddarparu nodyn ynghylch sut yr aeth ati i ystyried effeithiau'r polisi sectorau ar gydraddoldeb, yn enwedig o ran anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn y sectorau blaenoriaeth.

– Cynigodd y Gweinidog ystyried ymhellach y gwelliannau y gallai ei hadran eu gwneud o ran Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys nodyn ar ddull gweithredu'r

adran mewn perthynas ag asesu effaith ei gweithredoedd ar gydraddoldeb a datblygu cynaliadwy.

Trafnidiaeth:

- Sut y mae dyraniadau cyfalaf ar gyfer teithio cynaliadwy yn berthnasol i'r broses o gyflwyno'r Bil Teithio Llesol.
- Pan nodwyd y byddai'r arian ar gyfer trafndiaeth gymunedol yn dyblu i bob pwrpas, nodi'n glir a yw hynny'n cynnwys yr arian a ddyrannwyd yn flaenorol i'r Fenter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol.

4 Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor y dogfennau ategol canlynol:

EBC(4)-38-13(p5) – Llythyr gan Jocelyn Davies AC at Nick Ramsay ac Atodiad (e)

EBC(4)-38-13(p6) – Diweddariadau Chwe Mis – Blaenoriaethau ar gyfer y Rheilffyrdd, yr M4, Blaenoriaethau ac Ymrwymadau Trafnidiaeth